



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y Sector ôl-16

Cyngor i athrawon a darlithwyr sy'n cyflwyno
cysiau Cymwysterau Safon Uwch a Bagloriaeth
Cymru Uwch mewn ysgolion a cholegau Addysg
bellach o fis Medi 2020 ymlaen

Fersiwn 1.0
Awst 2020



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE



UNDEB EYRROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Rhagair

Cyhoeddwyd y [Cynllun Cadernid](#) ar gyfer y sector ôl-16 yn sgil Covid-19 ar 20 Mai. Mae'n nodi sut y byddwn yn gweithio ar y cyd â'r sector ôl-16 yn ystod pandemig Covid-19, gan sicrhau dilyniant yn y dysgu; sefydlogrwydd darparwyr; a lles ein dysgwyr a'n gweithlu.

Mae'r cynllun wedi'i drefnu'n dri cham: **Achub, Adolygu ac Adnewyddu**. Ar hyn o bryd rydym yn y cyfnod **Adolygu** o ran meddwl, cynllunio a darparu ar gyfer tymor yr Hydref 2020 a byddwn yn symud i'r cam **Adnewyddu** o fis Medi ymlaen.

Mae'r cyngor atodol hwn yn cefnogi dull cynhwysfawr a chydweithredol o fynd i'r afael â'r heriau y mae'r sector ôl-16 yn eu hwynebu, ynghyd â chydabod cyfleoedd i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio.

Ar gyfer pwy y bwriedir y canllawiau hyn?

Datblygwyd y cyngor hwn gan ein rhanddeiliaid – gan gynnwys darparwyr, Estyn, CBAC a Cymwysterau Cymru – a'i nod yw helpu i addysgu, dysgu ac asesu mewn perthynas a chymwysterau Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch mewn ysgolion a cholegau o fis Medi ymlaen. Mae'n cefnogi dysgwyr; parhâd dysgu, a symud ymlaen i addysg uwch a chyfleoedd hyfforddi.

Lluniwyd [canllaw ar wahân ar gyfer dysgwyr Safon Uwch](#) sy'n cyfeirio dysgwyr at adnoddau defnyddiol. Nod y canllaw hwn a'i ddatganiadau cymhellol yw cefnogi ac ennyn diddordeb dysgwyr. Mae'r egwyddorion hyn yr un mor addas i'n holl bobl ifanc uchelgeisiol, pa un a ydynt yn dilyn cyrsiau Safon Uwch, Bagloriaeth Cymru Uwch, neu gymwysterau galwedigaethol neu ddysgu seiliedig ar waith lefel 3. Efallai y bydd y darparwyr yn dymuno rhannu'r canllawiau hyn gyda'u carfanau 2020 ym mis Medi.

Addysgu, dysgu ac asesu Safon UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch o fis Medi 2020

Bwriad y canllawiau atodol hyn yw rhoi cyngor ychwanegol i ddarparwyr ar addysgu ar gyfer cymwysterau UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch yn sgil pandemig COVID-19 a'r tarfu cysylltiedig ar addysgu arferol. Gellir eu cymhwyso hefyd i elfennau cyrsiau galwedigaethol lefel 3 sydd fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai sy'n digwydd mewn ystafell ddosbarth. Maent yn ategu'r canllawiau cyffredinol ar gyfer dysgu cyfunol mewn [ysgolion](#) a lleoliadau [darparwyr ôl-16](#) a'r canllawiau ar gyfer dychwelyd at ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer [ysgolion](#) a [darparwyr ôl-16](#). Mae Llywodraeth Cymru yn darparu [cyllid ychwanegol](#) i ysgolion a cholegau i gynyddu cymorth addysgu i'r dysgwyr hyn ac i helpu'r cohort hwn gyda'r cyfnod pontio i ddysgu yn y chweched dosbarth/lleoliad ôl-16.

Helpu dysgwyr UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch i gyflawni eu dyheadau a chyrraedd eu potensial dysgu yn llawn

Bydd carfanau Safon UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch yn cynnwys dysgwyr ag amrywiaeth eang o nodweddion, agweddau a galluoedd. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn gobeithio symud ymlaen i addysg uwch neu hyfforddiant lle mae'r gallu i ddysgu o bell ac i weithio'n annibynnol yn cynyddu mewn pwysigrwydd.

Mae'r pwyntiau isod yn berthnasol i wahanol raddau i ddysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd sy'n astudio rhaglenni o wahanol fathau. Rhoddir amlygrwydd iddynt yn y canllawiau hyn am eu bod yn arbennig o berthnasol i ddysgwyr sy'n ymgymryd ag astudiaethau Safon UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch. Dylai darparwyr geisio:

- Cynnal disgwyliadau uchel o safon gwaith dysgwyr, ac wrth iddynt ddysgu o bell yn ogystal â gweithgareddau wyneb yn wyneb a dysgu annibynnol.
- Darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr gyfrannu ac i ryngweithio â nhw fel rhan o unrhyw ddysgu o bell cydamserol ac anghydamserol.
- Lle y bo'n briodol, gosod gwaith i'w gwblhau yn annibynnol neu gyda chyfoedion penodol cyn ac ar ôl ymgysylltu â gwersi byw.
- Gwneud defnydd o gyfleoedd perthnasol ar gyfer gwaith i'w wneud o bell ar y cyd â chyfoedion. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i gael

persbectif gwahanol ar eu gwaith yn ogystal â chael budd o'r broses o asesu gwaith eu cyfoedion.

- Lle bo'n ymarferol, rhoi rhywfaint o ddewis i ddysgwyr o ran y ffordd y maent yn dysgu a'r gweithgareddau y maent yn eu gwneud.
- Annog a meithrin chwilfrydedd academaidd dysgwyr drwy gynllunio cyfleoedd ychwanegol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr o allu uchel, i ymestyn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Gallai'r rhain ategu unrhyw weithgareddau sy'n benodol i [Seren](#).
- Manteisio ar allu dysgu ar-lein i dyfu yn unol â'r anghenion ac i gyrraedd cynulleidfa fwy; er enghraifft, drwy gynnwys siaradwyr gwadd fel arbenigwyr a chyflogwyr, neu drwy addysgu a dysgu ar y cyd â darparwyr eraill.
- Sicrhau bod dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb digonol o safbwynt eu dysgu a'u rhan nhw yn eu cynnydd.
- Casglu barn dysgwyr ar effeithiolrwydd gweithgareddau dysgu, addysgu ac asesu, a defnyddio'r rhain i fireinio gwersi ac asesiadau.

Bydd angen mwy o gymorth ar y garfan hon na rhai'r gorffennol

Mae dysgwyr presennol Safon UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch wedi dioddef tarfu ar eu dysgu, ac ar y gefnogaeth a'r sefydlogrwydd y mae ysgolion a cholegau yn eu darparu. Maent yn gymharol amhrofiadol ac mae'n bosibl bod eu gwendidau unigol wedi'u gwaethygu gan amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod clo. Yn ogystal â gwendidau sy'n bodoli eisoes, efallai bod ganddynt bryderon ychwanegol ynghylch eu gallu i ailgydio yn eu dysgu a symud ymlaen i addysg uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y ffordd yr oeddent wedi'i bwriadu. Efallai hefyd fod ganddynt bryderon ynghylch cael eu heintio â feirws COVID-19, neu ynghylch heriau ychwanegol sy'n ymwneud â'u bywydau teuluol a phersonol.

Dylai darparwyr geisio:

- Bod yn sensitif i anghenion dysgu unigol ac [iechyd a lles meddyliol](#) y dysgwr. Dylent ddarparu a hybu amrywiaeth o ddulliau i helpu dysgwyr gyda'u hanghenion lles a dysgu. Mae'n bosibl i'r athrawon eu hunain neu staff arbenigol ddarparu'r cymorth hwn, gan ymgysylltu o bell yn ogystal ag yn yr ysgol/coleg.

- Bod yn rhagweithiol wrth ragweld anghenion ychwanegol dysgwyr unigol am gymorth sy'n deillio, o bosibl, o'r toriad yn eu dysgu. Bydd hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o ffactorau, o heriau technegol o ran gallu gweithio o bell, i lai o ymgysylltiad â'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd.
- Gosod a chynnal disgwyliadau uchel o ran ymroddiad eich dysgwyr i'w dysgu, boed hynny'n addysgu byw neu'n weithgareddau dysgu annibynnol.
- Helpu dysgwyr i ddatblygu arferion a sgiliau academaidd a fydd yn eu galluogi i ddysgu'n annibynnol mewn ffordd effeithiol. Dylai'r rhain gynnwys technegau ar gyfer gweithio o bell ac ymateb yn gadarnhaol i heriau.
- Sefydlu protocolau a gofynion ymddygiad clir ar gyfer ymgysylltu ag unrhyw ddysgu ar-lein.
- Annog dysgwyr i ffurfio perthynas waith gynhyrchiol â chyfoedion a all eu cefnogi a'u herio o bell yn ogystal ag yn yr ystafell ddosbarth.
- Sefydlu a chynnal arferion sefydlog, gan gynnwys amserlen a fformat bras ar gyfer y sesiynau addysgu. Dylai athrawon gyfleu disgwyliadau gwaith yn glir a gosod terfynau amser penodol.
- Sicrhau lefel briodol o gysondeb o ran trefn a disgwyliadau rhwng gwahanol bynciau ac athrawon, fel bod profiad y dysgwr yn sefydlog ac yn gymharol gyson ar draws eu rhaglenni astudio.
- Cynllunio ar gyfer dysgu sy'n ysgogi diddordeb drwy gynnwys amrywiaeth o dasgau ac asesiadau gwahanol. Defnyddio unrhyw weithgareddau rhyngweithiol o safon uchel sydd ar gael i dorri ar gyfnodau o ddysgu o bell neu ddysgu annibynnol.
- Helpu i ysgogi dysgwyr, er enghraifft drwy gynnwys gweithgareddau cyffrous, darparu cyd-destun diddorol a chynnwys cyfeiriadau at yrfaoedd.
- Cynllunio dysgu sy'n cymryd i ystyriaeth y newidiadau i asesiadau i'r garfan hon, a gyhoeddwyd gan CBAC.
- Ystyried gwerth sesiynau bach, tebyg i seminarau i ategu ac atgyfnerthu unrhyw weithgareddau dysgu annibynnol lle bo'n briodol.
- Goruchwylio nodiadau personol dysgwyr ar wersi (yn electronig a/neu ar bapur) a rhoi adborth amserol defnyddiol ar aseiniadau a gyflwynwyd.

- Archwilio amrywiaeth o strategaethau asesu a rhoi adborth hygyrch i ddysgwyr ynghylch asesiadau a gynhelir yn ddigon rheolaidd.
- Defnyddio asesiadau 'lefel isel' fel cwestiynau amlddewis, trafodaethau a gwaith pâr i helpu i nodi unrhyw fylchau yng ngwybodaeth a medrau dysgwyr.
- Llunio strategaethau effeithiol i fynd i'r afael â bylchau gwybodaeth a sgiliau, er enghraifft drwy ddefnyddio technegau dysgu carlam, astudio annibynnol, a phan fo'n briodol, ffug arholiadau gydag adborth.
- Defnyddio canlyniadau asesiadau i osod targedau gyda dysgwyr ar gyfer datblygu personol, y cytunir arnynt gan y ddwy ochr.
- Tawelu meddyliau dysgwyr Mae sefydliadau addysg uwch, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr yn ymwybodol o'r heriau ychwanegol y mae dysgwyr presennol yn eu hwynebu.

Addysgu yn nhymor yr hydref

Mae'n anochel y bydd faint o addysgu wyneb yn wyneb a fydd yn digwydd yn parhau i ddibynnu ar ba mor bresennol yw'r feirws COVID-19. Dylai athrawon wneud eu gorau i baratoi gweithgareddau dysgu cyfunol sydd wedi'u cynllunio â dysgu o bell mewn golwg. Dylai fod yn bosibl addasu'r rhain ar gyfer graddfeydd mwy neu lai o ddysgu wyneb yn wyneb fel y bo'n briodol. Mae JISC (y sefydliad nid-er-elw ar gyfer gwasanaethau a datrysiadau digidol ar gyfer sectorau addysg uwch, addysg bellach a sgiliau) wedi paratoi canllawiau ar gyfer defnyddio technoleg gyda'r nod o [sichrau parhâd dysgu yn ystod cyfnod o absenoldeb gorfodol](#). Cyhoeddwyd canllawiau ar gefnogi dysgu o bell hefyd, wedi'u hanelu at [uwch arweinwyr ysgolion a gynhelir](#).

Dylai darparwyr ac athrawon ystyried cydweithio ar draws gwahanol ardaloedd, rhanbarthau a sectorau i rannu'r gwaith o gynllunio ar gyfer dysgu. Gallai hyn helpu i leihau llwyth gwaith athrawon ac i wella ansawdd y profiad dysgu i'r eithaf.

